Oes angen cyngor am ddim, annibynnol a chyfrinachol arnoch chi neu ddefnyddwyr eich gwasanaeth?

Sesiynau Gwybodaeth Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

Mae amser yn prinhau i ddinasyddion yr UE, Ardal Economaidd Ewropeaidd (AAE) neu'r Swisdir, a'u teuluoedd geisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog (EUSS) **erbyn 30 Mehefin 2021!**

Os nad yw unigolion sydd angen cofrestru yn gwneud hynny cyn 30 Mehefin, gallant golli eu hawl i fyw a gweithio yn y DU a chael mynediad at wahanol wasanaethau cyhoeddus a chymorth.

Mae ystod o wasanaethau cynghori am ddim, annibynnol a chyfrinachol ar gael i bawb.

Gweminarau Gwybodaeth a Chefnogaeth am Ddim

Dyma wahoddiad i chi i ddwy sesiwn Zoom ar-lein am ddim, a gynhelir gan bum partner darparu gwasanaeth; TGP Cymru, MIND Casnewydd, Cyngor ar Bopeth, Settled a Newfields Law. Mae'r sesiynau yma yn agored i'r cyhoedd a staff rheng flaen sy'n wynebu'r cyhoedd sydd â diddordeb proffesiynol mewn cefnogi dinasyddion yr UE. Maent wedi eu hanelu at hysbysbu'r rhai sy'n mynychu am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Didinasyddion yr UE, materion sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn ogystal â llwybrau at gefnogaeth wedi'i deilwra a fydd yn eu galluogi i gyfeirio ac atgyfeirio cleientiaid i'r gwasanaeth briodol yn ôl eu hanghenion.

Fel rheol, bydd angen i ddinasyddion yr UE, Ardal Economaidd Ewropeaidd (AAE) neu'r Swisdir, a'u teuluoedd sydd am aros yn y DU tu hwnt i 30 Mehefin 2020 wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i ddinasyddion yr UE Llywodraeth y DU.

Y diwrnod olaf gellir ceisio am statws sefydlog a statws cyn sefydlog yw'r 30 Mehefin 2021.

Cefndir y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

Gall dinasyddion yr UE/AEE/Swisdir ac aelodau eu teuluoedd sydd wedi bod yn preswylio'n barhaus yn y DU am bum mlynedd mewn unrhyw gyfnod hyd at ddiwrnod eu cais geisio ar gyfer **statws sefydlog**.

Bydd rheiny nad sy'n gallu profi preswylio'n barhaus am bum mlynedd yn gymwys ar gyfer **statws cyn-sefydlog**. Er mmwyn cael statws cyn sefydlog, rhaid i unigolion brofi eu bod wedi byw yn y DU am o leiaf 1 diwrnod a fu ar neu cyn y 31 Rhagfyr 2020 AC HEFYD yn y 6 mis cyn iddynt geisio.

Ymuno â'n Gweminarau

Bydd y sesiynau gwybodaeth yn dilyn y strwythur canlynol: cyflwyniad o'r Cynllun EUSS, a fydd yn cynnwys cyflwyniad gan pob partner i'w sefydliadau a manylu ar y gwasanaethau sydd ar gael, ac yn olaf, cyfle i drafod unrhyw faterion penodol mewn sesiwn holi ac ateb.

5 munud Croeso & Chyflwyniadau

30 munud Cyflwyniad ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i ddinasyddion yr UE:

Beth yw'r Cynllun a sut i wneud cais?

What is the EUSS & how to apply?

Beth yw'r dulliau gwahanol o geisio a pha gymorth sydd ar gael?

Sut fydd hawliau pobl yn newid yn y DU yn newid neu'n cael eu heffeithio wedi'r 30 Mehefin?

20 munud Sesiwn Holi ac Ateb Agored

5 munud Diwedd

Bydd gennych yr opsiwn i gofrestru ar gyfer y naill neu'r llall o'r digwyddiadau, bydd y cynnwys yr un peth. Dewiswch amser a dyddiad sy'n gyfleus i chi. Gweler dyddiadau a'r dolenni cofrestru isod:

Dydd Mercher, 16eg Mehefin, 1:00 PM-2:00 PM
Cliciwch yma i gofrestru

Dydd Iau, 24ain Mehefin, 1:00 PM-2:00 PM
Cliciwch yma i gofrestru

Cyflwyniad i'r Partneriaid:

Cyngor ar Bopeth Cymru: Mae CAB yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor i gynorthwyo unigolion gyda cheisiadau syml EUSS. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig gwasanaeth arbenigol i alluogi unigolion i ddeall eu hawliau yn y gweithle, ac yn gallu herio cam-fanteisio, gan gynnwys cyfryngu a chefnogaeth tribiwnlys. I gael cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim **Rhif ffôn: 0300 3309 059 neu e-bost: WGProject@eu.citizensadvice.org.uk**

Settled: Elusen newydd yw Settled, a sefydlwyd gan ddinasyddion yr UE Eu pwrpas yw arwain, hysbysu, a chynorthwyo dinasyddion UE bregus ac anodd ei chyrraedd gyda'u ceisiadau EUSS, er mwyn eu helpu i gadw eu hawl i fyw a gweithio o fewn y DU, a sicrhau eu hawliau dinasyddion yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit. Gall cynghorwyr cynnig cefnogaeth o bell mewn nifer o ieithoedd dros y ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, - grwpiau fforwm Facebook, grwpiau WhatsApp, a rhannu gwybodaeth am yr EUSS trwy Twitter a Facebook. Mae settled yn cynnal gweminarau gyda is-genhadon UE a chyfreithwyr mewnfudo ar Facebook a Zoom. **E-bost: info@settled.org.uk**

TGP Cymru: Mae TGP Cymru yn darparu cyngor ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, cefnogaeth cais llawn ac yn gysylltiedig â dinasyddion Roma i amddiffyn eu hawl i aros yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei chynnig am ddim, mewn ieithoedd cartrefol ledled Cymru gyfan. Yn ogystal â chyngor EUSS, maent yn cynnig amrywiaeth eang o gefnogaeth, gan weithio'n agos gyda'r gymuned Roma. **Rhif ffôn: 0808 802 0025 neu e-bost: travellingahead@tgpcymru.org.uk**

Newfields Law: Maent yn gwmni cyfreithiol mewnfudo arbenigol wedi'i leoli yng Nghaerdydd sydd â chynghorwyr cyfreithiol cymwysedig sy'n gallu helpu gyda phob agwedd o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae Newfields yn darparu cymorth i wneud cais i unigolion gydag achosion yn amrywio o syml i'r rhai mwyaf cymhleth. **Rhif ffôn: 02921690049 neu e-bost: info@newfieldslaw.com**

Mind Casnewydd: Mae Mind Casnewydd yn darparu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth ledled Cymru (mewn cydweithrediad â swyddfeydd Mind eraill) ac yn cefnogi oedolion bregus sydd â phroblemau iechyd meddwl, dioddefwyr cam-drin domestig a'r henoed i wneud cais ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. **E-bost: euenquiries@newportmind.org**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelodau ein tîm drwy e-bostio: wgprojects@citizensadvice.org.uk

Gobeithio y gwelwn ni chi yno.

Wednesday, 16th June, 1:00 PM-2:00 PM
Click here to join/register

Thursday, 24 June, 1:00 PM-2:00 PM
Click here to join/register